Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com
Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL
Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Trafodaeth ar Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi ar y cyd mewn Sgiliau

Tystiolaeth gan Comisiynydd Pobl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – CIS 7

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4ydd Mehefin 2015

Annwyl Bwyllgor,

**Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau**

Diolch am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad ar Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau[1]. Rwy'n llwyr gefnogi'r holl ymdrechion i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn seilwaith sgiliau Cymru, a bod mwy o gyflogwyr yn buddsoddi yn sgiliau eu gweithlu. Drwy dynnu'r pwyslais oddi ar ddull buddsoddi mewn sgiliau a arweinir gan y llywodraeth a chanolbwyntio ar system a ddylanwadir ac a arweinir gan gyflogwyr, mae'n hanfodol bod gweithwyr o bob oed yn cael eu cefnogi i wella'u sgiliau. Gyda disgwyliad oes yn cynyddu a'r angen i gynyddu incymau yn effeithio ar fodelau ymddeol traddodiadol, mae'n rhaid i bobl hŷn allu cael mynediad at gyfleoedd newydd i ddysgu sgiliau er mwyn aros yn y byd gwaith neu fynd yn ôl i weithio.

[1] http://gov.wales/docs/dcells/publications/141120-framework-for-co-investment-in-skills-en.pdf

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Wedi dweud hynny, ac fel y pwysleisiais yn fy ymateb i'ch Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 oed[2], ac yn fy ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - 'Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion Economi Cymru', mae pobl hŷn, yn enwedig y rheiny rhwng 50 oed ac oedran Pensiwn y Wladwriaeth, yn wynebu sawl rhwystr sy'n eu hatal rhag aros yn y farchnad waith neu rhag mynd yn ôl i weithio.

Mae rhagfarn ar sail oedran yn rhwystr allweddol i weithwyr hŷn:

- Mae strategaethau polisi, cynlluniau gweithredu a'r holl drafodaethau ynghylch cyflogaeth a chynlluniau sgiliau yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl dan 25 oed. Er enghraifft, nid yw Datganiad Polisi ar Sgiliau[3] Llywodraeth Cymru na'r Cynllun Gweithredu Sgiliau[4] yn cyfeirio at sgiliau penodol sydd eu hangen ar weithwyr hŷn i aros yn y byd gwaith neu fynd yn ôl i weithio. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau digidol i adlewyrchu amgylchiadau gwaith modern, ac mae'n rhaid iddyn nhw gael eu hategu gan arferion gweithio hyblyg sy'n ystyried cyfrifoldebau gweithwyr hŷn sy'n gofalu am rieni eu hunain a/neu wyrion a wyresau.

- Nid yw cyflogwyr yn cael eu hannog i gyflogi gweithwyr hŷn a defnyddio'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad cyfoethog sydd ganddynt. Er enghraifft, tra bo'r fframwaith yn nodi bod Llywodraeth Cymru (P5) yn cefnogi prentisiaethau hyd at lefel 3 i bobl dan 25 oed, mae'n rhaid i'r cyflogwyr (P6) ysgwyddo costau'r hyfforddiant i'r rheiny sydd dros 25 oed.

- Dylai gweithwyr hŷn gael mynediad at yr un gefnogaeth â phawb arall. O ran cydraddoldeb a thegwch, er bod y fframwaith yn cyfeirio at gefnogi ystod eang o unigolion i gael mynediad at hyfforddiant yn y gweithle (P7), nid yw'n cyfeirio at archwilio effaith y fframwaith ar wahanol grwpiau oedran, nac ychwaith bod y fframwaith yn addas ar gyfer bob oedran.

Mae'r sefyllfa sy'n wynebu pobl hŷn yn y diwydiant gofal yn enghraifft o gyfle anghyfartal i gael mynediad at gefnogaeth. Mae'r gostyngiad yn yr

---

[2] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s35635/EBC4-03-15%20p.1%20Older%20Peoples%20Commissioner%20for%20Wales.pdf

[3] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140129-policy-statement-on-skills-en.pdf

[4] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140714-skills-implementation-plan-en.pdf

arian a ddaw gan Lywodraeth Cymru yn golygu mai dim ond pobl dan 25 oed sy'n cael cymorth i gael Cymhwyster Lefel 2 o dan y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh) , sef prif gymhwyster gofalwyr[5]. Gan fod y cymhwyster yn costio rhwng £750 a £1,200, mae pobl hŷn sydd am gael gwaith yn y diwydiant gofal yn cael eu rhwystro rhag gwneud hynny heb y gefnogaeth angenrheidiol[6]. Mae dibynnu ar gyflogwyr ac unigolion dros 25 oed i ariannu hyfforddiant eu hunain y potensial o roi gweithwyr hŷn ar anfantais[7]. Mae'r effeithiau'n bellgyrhaeddol i unigolion ac i'r diwydiant; mae unigolion yn colli cyfleoedd i wella'u gyrfaoedd, eu incwm a'u sgiliau, ac mae'r diwydiant ar ei golled heb eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad cyfoethog.

Mae'r angen i foderneiddio arferion ac amgylchiadau gweithio a chynnig cynlluniau cyflogaeth a strategaethau sgiliau i bobl o bob oed yng Nghymru nawr yn fwy nag erioed: mae dros draean y bobl rhwng 50 ac oedran Pensiwn y Wladwriaeth yng Nghymru yn ddi-waith (tua 214,000 o bobl), ac amcangyfrifir bod pedair gwaith yn fwy o bobl hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) na phobl dan 25 oed[8][9]. Yn y DU, bydd 13.5 miliwn o swyddi gwag yn y degawd nesaf a dim ond 7 miliwn o bobl ifanc fydd wedi gadael addysg yn ystod y cyfnod hwnnw[10]. Felly, mae'n rhaid i fentrau fel y fframwaith sgiliau fanteisio ar botensial gweithwyr hŷn ac ailgysylltu â'r 'gweithlu anghofiedig'.

Fel y nodais yn fy ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i'r model prentisiaethau, rwy'n disgwyl y bydd y fframwaith ar gyfer buddsoddiad ar y cyd yn annog cyflogwyr i fuddsoddi yn sgiliau pobl o bob oed o'r cychwyn. Mae gwneud yn siŵr bod gweithwyr hŷn yn elwa o'r gwaith ar y cyd a arweinir gan y llywodraeth a dulliau a arweinir gan gyflogwyr o fudd i'r unigolyn, i'r gweithlu ac i'r economi leol/genedlaethol.

O ystyried bod y boblogaeth yn mynd yn hŷn ac nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o wybodaeth a phrofiad cyfoethog ar hyn o

---

[5] http://www.niacecymru.org.uk/en/content/niace-cymru-urges-welsh-government-maintain-all-age-investment-skills
[6] http://www.quantumskillsacademy.com/courses
[7] http://www.ccwales.org.uk/uploads/Council_Members/29.01.15/N._Item_14_Co-investmenmt_Framework.pdf
[8] http://www.prime.org.uk/wp-content/uploads/2014/10/PRIME-report-the-missing-million.pdf
[9] http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130724-young-people-not-education-employment-training-year-31-march-2013-en.xls
[10] http://www.prime.org.uk/wp-content/uploads/2014/10/PRIME-report-the-missing-million.pdf

bryd, mae’n hanfodol bod cyflogwyr yn cydnabod manteision cyflogi gweithlu amrywiol sy’n pontio’r cenedlaethau ac yn buddsoddi mewn sgiliau i gadw eu gweithwyr hŷn neu'n ail gysylltu â nhw.

Yn gywir,



**Sarah Rochira**

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**